**Mabon ap Gwynfor**
Aelod o'r Senedd dros
Ddwyfor Meirionnydd
—
Member of the Senedd for
Dwyfor Meirionnydd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Mabon.ap.Gwynfor@senedd.cymru
https://senedd.cymru/pobl/mabon-ap-gwynfor-as/

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Mabon.ap.Gwynfor@senedd.wales
senedd.wales/Name
https://senedd.wales/people/mabon-ap-gwynfor-ms/

0300 200 6565

@mabon.ap

@mabonapgwynfor

/mabonplaidcymru

**Rhif cyfeirnod: LAH03**

26/01/2022

Annwyl Llyr,

Hoffwn dynnu dynnu eich sylw a sylw'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd, ac Isadeiledd at Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru, yn benodol Cwmpas yr Adolygiad sydd o fewn yr Amcanion.

Dywed:

Mae Gweinidogion Cymru yn dymuno i hyn fod yn ymarfer mor eang â phosibl fel y gall ddatblygu meini prawf sy'n berthnasol i bob cynllun yn y dyfodol. Cwmpas cyffredinol yr adolygiad yw cynnwys yr holl fuddsoddiad ffyrdd arfaethedig, boed yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) neu'n anuniongyrchol drwy grant ar y Rhwydwaith Ffyrdd Lleol (LRN), yn amodol ar y canlynol:…

3. Bydd ffyrdd mynediad sydd â'r prif ddiben o gysylltu safle neu fangre ar gyfer diwydiant trwm â'r briffordd gyhoeddus, neu o fewn ffin safle datblygu diwydiant trwm, yn cael eu heithrio o'r adolygiad. Dylid oedi o ran ffyrdd mynediad gyda'r prif ddiben o wasanaethu datblygiadau preswyl, manwerthu a swyddfeydd / diwydiant ysgafn yn y porth penderfynu nesaf i'w galluogi i gael eu hystyried gan y panel adolygu.

Felly, bydd ffyrdd mynediad ar gyfer diwydiant trwm yn parhau, ond ffyrdd mynediad at ardal preswyl neu ddiwydiant ysgafn/manwerthu yn cael ei adolygu.

Ymddengys fel petai hyn yn mynd yn groes i fwriad yr adolygiad, wrth i'r ffyrdd mwyaf llygredig gael parhau gan achosi rhagor o lygredd a niwed amgylcheddol.

Credaf y byddai'n werth eich amser fel Pwyllgor i edrych ar hyn a chraffu y gweinidog ynghylch y mater er mwyn ceisio deal y rhesymeg a'r wyddoniaeth.

Byddai hefyd yn werth ystyried sut y mae'r Llywodraeth yn priodi amcanion yr adolygiad efo'r ffaith fod yr A465 yn parhau i gael ei hadeiladu yn ogystal a datblygiad Newydd yr A4119.

Gobeithio y gwnewch ystyried fy nghais yn ffafriol.

Yr eiddoch yn gywir